



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board



Iechyd gwell
Gofal gwell
Bywyd gwell

Better health
Better care
Better lives

Prif Swyddog Gweithredu GIG Cymru

Strwythur Cymhwysedd Ymddygiadol

Wedi'i dynnu o Fframwaith Ansawdd Arweinyddiaeth GIG Cymru,
Strwythur Cymhwysedd Ymddygiadol Gweithredwyr GIG Cymru a dogfennau strategol eraill.

Gosod Cyfeiriad	
Rhinweddau Cyfrifoldeb Yn tynnu ar werthoedd, cryfderau a galluoedd i ddarparu safonau uchel o wasanaeth.	- Yn defnyddio menter i ddatrys problemau a hysbysu eraill pan fydd yn ymwybodol o broblemau posibl. - Yn rheoli perfformiad drwy ddal eu hunain ac eraill yn gyfrifol am ganlyniadau gwasanaeth. - Herio ymddygiad di-gymorth yn briodol. - Bod yn barod i fynd yr ail filltir dros gleifion a chleientiaid a gweithredu ar eu hadborth. - Arwain trwy esiampl, dylanwadu ac ysbrydoli hyder mewn eraill - Yn gweithredu gyda gonestrwydd drwy ymddwyn mewn modd agored, gonest a moesegol.
Angerdd dros Wella Yn gweithio gydag eraill mewn timau a rhwydweithiau i ddarparu a gwella gwasanaethau.	- Edrych ar yr amgylchedd gwaith a chwilio'n weithredol am ffyrdd o wella profiad y claf a'r cleient - Ysgogi gwelliant ac arloesedd parhaus drwy ofyn 'sut allem ni wneud hyn yn well?' - Adolygu beth fyddai'r 'Gorau yn ei Dosbarth' ar gyfer ein maes cyfrifoldeb a cheisio cyflawni hyn. - Yn datblygu rhwydweithiau drwy weithio mewn partneriaeth â chleifion, gofawyr, defnyddwyr gwasanaethau a'u cynrychiolwyr, a chydweithwyr o fewn ac ar draws systemau i ddarparu a gwella gwasanaethau - Arwain moderneiddio gwasanaethau drwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i symud pwyslais y sefydliad o ofal yn yr ysbyty i atal effeithiol, ymyrraeth gynnar a gofal hirdymor yn y gymuned
Balchder yn yr Hyn a Wnawn Yn canolbwyntio ar llwyddiant y sefydliad.	- Ymfalchïo yn ein gwaith ein hunain a gwaith eich tîm. - Dathlu llwyddiant a rhannu arfer da. - Bod yn fodel rôl cadarnhaol sy'n edrych yn glyfar ac yn broffesiynol. - Arwain trwy esiampl. - Hyrwyddo hyder mewn cydweithwyr, timau a'r sefydliad. - Cydnabod a gwobrwyo cyflawniad. - Gwerthfawrogi ein gweithle - Dathlu llwyddiant. - Dysgu o brofiad. - Yn rheoli adnoddau drwy wybod pa adnoddau sydd ar gael a defnyddio eu dylanwad i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn ddiogel, ac yn adlewyrchu amrywiaeth yr anghenion. - Yn rheoli pobl drwy ddarparu cyfeiriad, adolygu perfformiad, ysgogi eraill, a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.
Claf yn Gyntaf Yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i iechyd pobl drwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a thrwy ddatblygu gwelliannau i wasanaethau.	- Yn gwrando ar bryderon cleifion ac ymwelwyr ac yn cymryd camau gweithredu. - Yn rhoi blaenoriaeth i gamau gweithredu a fydd yn gwella'r gwasanaeth ac yn hyrwyddo diogelwch cleifion. - Bob amser yn adrodd am ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau bron â digwydd a allai achosi niwed i gleifion a chleientiaid.

Gosod Cyfeiriad Yn cyfrannu at strategaeth a dyheadau'r sefydliad ac yn gweithredu mewn modd sy'n gyson â'i werthoedd.	• Yn nodi'r cyd-destunau ar gyfer newid drwy fod yn ymwybodol o'r ystod o ffactorau i'w hystyried. • Yn cymhwyso gwybodaeth a thystiolaeth drwy gasglu gwybodaeth i gynhyrchu her sy'n seiliedig ar dystiolaeth i systemau a phrosesau er mwyn nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau. • Yn gwerthuso effaith drwy fesur a gwerthuso canlyniadau, gan gymryd camau cywirol lle bo angen a thrwy gael ei ddwyn i gyfrif am ei benderfyniadau ei hun.
Creu'r Weledigaeth Yn creu gweledigaeth gymhellol ar gyfer y dyfodol, ac yn cyfleu hyn o fewn ac ar draws sefydliadau.	• Yn datblygu gweledigaeth y sefydliad, gan edrych i'r dyfodol i bennu cyfeiriad y sefydliad. • Yn cyfleu'r weledigaeth ac yn ysgogi eraill i weithio tuag at ei chyflawni. • Ymgorffori'r weledigaeth drwy ymddwyn mewn modd sy'n gyson â gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad. • Yn fframio'r strategaeth drwy nodi opsiynau strategol ar gyfer y sefydliad a defnyddio ystod eang o wybodaeth, gwybodaeth a phrofiad. • Yn datblygu'r strategaeth drwy ymgysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid allweddol. • Yn gweithredu'r strategaeth drwy drefnu, rheoli a chymryd risgiau'r sefydliad.